# Adroddiad Blynyddol Cyngor Cymuned Llandderfel 2024/25.

**Cyflwyniad**
Dibyn yr adroddiad hwn yw cyflwyno gwybodaeth am weithgareddau Cyngor Cymuned Llandderfel yn ystod 2024/25. Mae'n cynnwys amlinelliad byr o strwythur y Cyngor, trosolwg o weithgareddau'r Cyngor dros y flwyddyn, a chrynodeb ariannol. Mae'r adroddiad yn esbonio sut mae'r Cyngor wedi cyfrannu at les yr ardal dros y flwyddyn ddiwethaf ac edrych ymlaen ar gyfer y flwyddyn i ddod.

**Cefndir**
Plwyf yng nghantref Penllyn yw Llandderfel. Yn 1985 ffurfiwyd y Cyngor Cymuned bresennol wrth gyfuno hen blwyf Llanfor a hen blwyf Llandderfel. Yn ddaearyddol y mae'n un o'r plwyfi mwyaf yng Nghymru ag arwynebedd o bron ugain mil hectar sy'n ymestyn o ffiniau Cyngor Bwrdeistref Conwy yn y gogledd i Sir Ddinbych yn y gogledd a'r dwyrain ac at derfyn Powys yn y de ddwyrain. Poblogaeth denau a gwasgaredig sydd i'r gymuned wledig hon yn cynnwys pentrefi Llandderfel, Glanrafon, Llanfor, Frongoch a Sarnau. Yng nghyfrifiad 2011 yr oedd y boblogaeth yn 1,511 a thua 71% o'r rhain yn medru siarad Cymraeg. Rhed afon Dyfrdwy drwy ganol y plwyf a ffurfia afonydd Celyn a Thryweryn ran helaeth o'r ffiniau gorllewinol a deheuol. Rhed afon Celyn i'r llyn a gronnwyd yn y chwedegau i gyflenwi dinas Lerpwl.

**Cynghorwyr a Staff.**
Cadeirydd: Dewi Pritchard, Hengwm, Bethel.
Is-gadeirydd: Alwyn Jones, Awel y Gwirod, Frongoch.
Clerc: Bethan Jones, Hafod y Bryn, Cwmtirmynach, Y Bala.
Ffon: 01678520632 E-bost: hafodbryn632@gmail.com

Mae'r Cyngor yn cynnwys 13 aelod sydd wedi eu rhannu dros ddwy ward, fel a ganlyn:

**Ward Llanybetws.**
Maldwyn P. Jones, Henblas, Llandderfel.
Rita Jones, 13 Tan y Foel, Llanfor.
Gwenda M. Evans, Tŷ Isa, Glanrafon.
Gwenda Morris, Plas Isa, Llandderfel
Dewi G. Pritchard, Hengwm, Bethel.
Iolo V. Evans, Bryn Ffynnon, Glanrafon.
Gwynedd Jones, Gelli, Glanrafon.
Meilir Jones, Bryn Derw, Glanrafon.

**Ward Llanfor**
Gary Thomas, Pencefn, Sarnau.
Eilir Rowlands, Hendre, Cefnddwysarn.
Bethan Thomas, Gwynant, Frongoch.
Eifion W. Davies, Cynlas, Cefnddwysarn.
Alwyn Jones, Awel y Gwirod, Frongoch.

**Cyfarfodydd.**
Cynhelir cyfarfodydd misol y Cyngor ar y nos Fawrth cyntaf o'r mis, ac eithrio Ionawr, Ebrill ac Awst lle ni chynhelir cyfarfod. Mae'r cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn neuaddau Sarnau a Mynach am 7.30y.h. Cynhelir y Cyfarfod Blynyddol ym mis Mai. I wella ein gwasanaeth gofynion 'Adran 47 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021' i ddarparu ar gyfer presenoldeb aml-leoliad mewn cyfarfodydd y Cyngor buddsoddwyd mewn gliniadur newydd ac offer pwrpasol yn Ionawr 2023.

**Cyfrifon i ddiwedd Mawrth 2025:**
Gweddill a ddygwyd ymlaen o 1/4/2024 £12780.59*

Derbyniadau +£ 17759.44

Taliadau -£ £20,871.69**

**Gweddill 31/3/25 £9,668.34*****

*Yn cynnwys y Cyfrif Cyfredol a'r Cyfrif Cadw
**Yn cynnwys gwariant o £5766.52 o arian grant Clocaenog (a dderbyniwyd yn 2023/24) ar waith i wella'r mynwentydd yn cynnwys dadorchuddio llwybr a cherrig beddi cudd, gosod hysbysfyrrddau a meinciau newydd a chofnodi hanes y mynwentydd ar gyfer yr hysbysfyrddau a thudalen ychwanegol ar y wefan
***Yn cynnwys £1199.35 o arian grant sydd wedi ei glustnodi ar gyfer cwblhau'r gwelliannau i fynwentydd y Cyngor yn 2025/26.

Praesept Blynyddol: £13,000

Nifer o aelodau wnaeth hawlio'r lwfans blynyddol o £150 a chostau perthnasol - dim.

Archwilwyr Mewnol: Cyngor Gwynedd. Archwilwyr Allanol: Archwilio Cymru.

Canlyniad yr Archwiliad Blynyddol 2023/24: Diamod

**Prif amcanion y Cyngor**
1) Rheoli Eiddo'r Cyngor – 1 neuadd gymunedol (les), 3 mynwent (yn cynnwys sied, hysbysfyrddau a meinciau), 7 lloches bws, 2 gae chwarae a'r offer a chofgolofn.
2) Gweinyddiaeth a Llywodraethant.
3) Rhoddion Ariannol i Fudiadau Gwirfoddol.
4) Cynrychioli ac Ymgysylltu a'r Gymuned - cynghorwyr yn cynrychioli'r Cyngor ar bwyllgorau'r neuaddau lleol, Corff Llywodraethol Ffederasiwn Cysgod y Foel a chyfarfodydd lleol Yr Heddlu, ac yn adrodd unrhyw adborth yn nol i'r Cyngor. Cynrychiolaeth mewn gweithgareddau a digwyddiadau lleol.
5) Partneriaeth a Chyd Weithio - Partneriaeth Penllyn a Chanolfan Henblas, Bala a gyda materion unigol gyda'r Cynghorau Cymuned a Thref Penllyn e.e. materion traffig.
6) Ceisiadau Cynllunio.
7) Gwella a Chefnogi ein Cymuned.

**Gweithgareddau.**
1) Cychwyn ar y gwaith a ariannwyd gan Gronfa Melinau Gwynt Clocaenog i dorri coed, clirio a phlannu bylbiau blodau, gosod meinciau a hysbysfyrddau i arddangos hanes y mynwentydd. Gyda'r cynghorwyr yn gwirfoddoli i wneud peth o'r gwaith hefyd.
2) Cydweithio a'r ysgolion lleol i blannu bylbiau blodau yn y mynwentydd.
3) Cydweithio a swyddogion y Parc Cenedlaethol i blannu coed ywen ym mynwent Frongoch.
4) Cefnogi mudiadau ac elusennau lleol drwy gyfraniadau ariannol wrth iddynt wynebu heriau costau byw. Cefnogi'r ysgolion a neuaddau lleol drwy gyfraniadau ariannol i wella eu cyfleusterau. Cyfrannwyd £3,350 eleni.
5) Gwaith trafod gyda Gwasanaethau Cefnogi Cymunedau Cyngor Gwynedd i greu Cynllun Ardal Phenllyn a Bala fel rhan o'u prosiect 'Ardal Ni 2035'.
6) Cydweithio gyda'r trigolion lleol a'r cyngor sir i sicrhau fod materion lleol yn cael sylw, e.e. cyflwr y ffyrdd gwledig, llwybrau cyhoeddus.
7) Cydweithio gyda Chyngor Tref Y Bala i dynnu sylw'r Asiantaeth Cefnffyrdd i bryderon y cynghorau am y goryrru ar yr A494 a chais am gyfyngiadau cyflymder.
8) Cydweithio gyda Chynghorau eraill ynglŷn â materion fel rheolaeth o'r farchnad dai lleol, polisi iaith ayyb.
9) Cynghorwyr yn mynychu cyfarfodydd Cwmni Pum Penllyn, Heddlu lleol a Dŵr Cymru i drafod prosiectau a materion lleol.
10) Gohebu a diweddaru'r trigolion lleol ynglŷn â chynlluniau melinau gwynt Gaerwen a Foel Fach a cynorthwyo gyda threfnu cyfarfodydd cyhoeddus.
11) Ariannu prynnu nwyddau i ddifib's yr ardal ar ôl i Wasanaeth Ambiwlans Cymru stopio cyflenwi'r nwyddau yma am ddim.

**Cynlluniau ac amcanion ar gyfer 2025/26.**
1) Parhau i gydweithio gyda'r trigolion lleol a'r cyngor sir i sicrhau fod materion lleol yn cael sylw.
2) Cynnal a chadw eiddo'r Cyngor.
3) Parhau i gefnogi mudiadau lleol drwy roddion ariannol.
4) Parhau i gydweithio gyda'r Gwasanaethau Cefnogi Cymunedau Cyngor Gwynedd i ddatblygu'r Cynllun Ardal Phenllyn a Bala fel rhan o'u prosiect 'Ardal Ni 2035'.

5) Parhau i gydweithio gyda Chyngor Tref Y Bala i dynnu sylw'r Asiantaeth Cefnffyrdd i bryderon y cynghorau am y goryrru ar yr A494 a chais am gyfyngiadau cyflymder.
6) Gorffen y gwaith yn y mynwentydd a gafodd ei ariannu gan Gronfa Melinau Gwynt Clocaenog.
7) Ail gychwyn y gwaith o geisio cael lloches bws i bentref Llanfor.
8) Hyrwyddo a datblygu Cynllun Bioamrywiaeth y Cyngor. Cydweithio a swyddogion y Parc Cenedlaethol i blannu gwrychoedd ym mynwent Frongoch a choed afalau yn yr ysgol a'r cylch meithrin yn Frongoch.